ystadegau ar gyfer cymru statistics for wales


Datganiad Ystadegol Cyntaf

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Ystadegau cryno ar gyfer rhanbarthau economaidd Cymru: Canolbarth a De-orllewin Cymru

**30 Mai 2019**
**SFR 39/2019**

Mae rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru yn cynnwys awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys ac Abertawe. Nod y datganiad hwn yw rhoi dadansoddiad ystadegol o ranbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru a thynnu sylw at wahaniaethau a allai fodoli ledled y rhanbarth ar gyfer y naw pwnc dan sylw.




**Pwyntiau Allweddol**

- Canolbarth a De-orllewin Cymru yw'r lleiaf poblog o blith y tri rhanbarth. Hefyd, hwn yw'r rhanbarth â'r twf rhagamcanol isaf yn y boblogaeth dros yr 10 a'r 20 mlynedd nesaf.
- Dengys data poblogaeth fod mwy o ddynion na merched rhwng 20 a 30 oed yn y rhanbarth yn 2017
- Yn 2017, roedd capasiti ynni carbon isel (MW) Canolbarth a De-orllewin Cymru yn fwy nag yn rhanbarthau eraill Cymru. Roedd 64 y cant o brosiectau gwynt ar y tir Cymru, 62 y cant o brosiectau biomas Cymru a 54 y cant o brosiectau pympiau gwres Cymru wedi'u lleoli yn y rhanbarth.[1]
- Roedd gwasanaethau ffeibr llawn ar gael i 8 y cant o'r cartrefi a'r busnesau ledled y rhanbarth ym mis Medi 2018. Roedd y ffigur hwn yn uwch na chyfartaleddau'r DU a Chymru.
- Yn ôl amcanestyniadau aelwydydd, erbyn 2039, gallai fod tua 154,000 o aelwydydd un person, y byddai bron i draen ohonynt (32 y cant) yn Abertawe.

## Y datganiad hwn

Mae'r datganiad hwn yn un o bedwar allbwn ystadegol sy'n crynhoi ystadegau ar naw pwnc allweddol i Gymru a thri rhanbarth economaidd Cymru, fel y'u diffinnir yn y Cynllun Gweithredu Economaidd.

Gyda'i gilydd, mae'r datganiadau hyn wedi cael eu paratoi i roi gwybodaeth ar gyfer cynllunio rhanbarthol, gan gefnogi Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi.

## Yn y datganiad hwn

| | |
|---|---|
| Poblogaeth | 2 |
| Iechyd | 12 |
| Cyflogaeth | 14 |
| Trafnidiaeth | 19 |
| Yr Amgylchedd | 22 |
| Ffyniant | 26 |
| Seilwaith Digidol | 29 |
| Tai | 33 |
| Diwylliant a Threftadaeth | 37 |
| Gwybodaeth am Ansawdd | 38 |


[1] (r) Adolygwyd y paragraff hwn ar 23/08/2019

Ystadegydd: Rebecca Large ~ 0300 025 5050 ~ desg.ystadegau@llyw.cymru

Ymholiadau gan y wasg: 0300 025 8099    Ymholiadau gan y cyhoedd: 0300 025 5050    Twitter: @YstadegauCymru

# Poblogaeth

### Ffigur 1: Y boblogaeth yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru, yn ôl awdurdod lleol, 2017





Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Roedd gan Ganolbarth a De-orllewin Cymru boblogaeth o tua 904,000 o bobl[2] yn 2017.

Yr awdurdod mwyaf yn y rhanbarth hwn, o ran trigolion, oedd Abertawe, gyda phoblogaeth amcangyfrifedig o ryw 245,000 yn 2017. Y lleiaf, ar y llaw arall, oedd Ceredigion gyda phoblogaeth o ryw 73,000.

[2] StatsCymru: Amcangyfrifon o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn

**Ffigur 2: Dwysedd y boblogaeth (unigolion fesul cilomedr sgwâr) yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru, yn ôl awdurdod lleol, 2017**




Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol; Mesuriadau ardal safonol, y Swyddfa Ystadegau Gwladol


Roedd gan Ganolbarth a De-orllewin Cymru ddwysedd poblogaeth[3] o 76.8 o bobl fesul cilomedr sgwâr yn 2017, sef yr isaf o blith y tri rhanbarth yng Nghymru.

Abertawe oedd yr awdurdod mwyaf poblog gyda 646.6 o bobl fesul cilomedr sgwâr. Er bod hon yn cynnwys yr ail ddinas fwyaf yng Nghymru, dim ond y pumed awdurdod mwyaf poblog yn y wlad ydyw ar ôl Caerdydd, Casnewydd, Torfaen a Chaerffili. At hynny, roedd 4 o'r 5 awdurdod teneuaf eu poblogaeth yng Nghymru yn y rhanbarth. Yr awdurdod teneuaf ei boblogaeth yn y rhanbarth ac yng Nghymru oedd Powys, gyda dwysedd poblogaeth o 25.6 o bobl fesul cilomedr sgwâr. Rhwng 2007 a 2017, cynyddodd dwysedd y boblogaeth 2.8 y cant yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru. Yr awdurdod lle y cafwyd y cynnydd mwyaf yn nwysedd y boblogaeth yn y rhanbarth dros y cyfnod hwn oedd Abertawe, sef 5.6 y cant. Yng Ngheredigion y gwelwyd y cynnydd lleiaf yn y rhanbarth a hefyd yng Nghymru, gyda dwysedd y boblogaeth yn gostwng 3.0 y cant o 2007 i 2017.

Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o data Cyfrifiad 2011 (heb ei gyhoeddi) yn dangos bod nifer a chyfran y trigolion sy'n byw yn yr aneddiadau "mwyaf tenau" yn y Canolbarth a'r De-orllewin yn uwch na'r ddwy ranbarth arall, gyda bron i draean o drigolion y rhanbarth yn byw mewn aneddiadau o'r fath.

[3] StatsCymru: Dwysedd y boblogaeth (unigolion fesul cilomedr sgwâr) yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn

**Ffigur 3: Dosbarthiad y boblogaeth yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru, yn ôl oedran a rhyw, 2017**





Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Dengys Canolbarth a De-orllewin Cymru arwyddion clir o boblogaeth sy'n heneiddio[4] yn y rhanbarth. Rhwng 1997 a 2017, mae cyfran y boblogaeth 65 oed a throsodd[5] wedi cynyddu o 19 y cant i 23 y cant, tra bod cyfran y boblogaeth 15 oed ac iau wedi gostwng o 20 y cant i 17 y cant. Mae siâp pyramid y boblogaeth yn dangos y ceir hefyd ymchwydd anghymesur ar y pyramid poblogaeth, sy'n nodi bod mwy o ddynion na merched rhwng 20 a 30 oed yn 2017.

[4] StatsCymru: Amcangyfrifon o'r boblogaeth yn ôl rhyw a blwyddyn
[5] StatsCymru: Amcangyfrifon o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol ac oedran

**Ffigur 4: Newid canrannol yn y boblogaeth yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru, yn ôl awdurdod lleol, 1997-2017**





Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru, y newid ym mhoblogaeth y rhanbarth[6] yn y cyfnod 1997 i 2017 oedd 7.3 y cant. Fodd bynnag, ar lefel awdurdod lleol, mae twf y boblogaeth wedi amrywio.

Tyfodd poblogaeth Abertawe 5.6 y cant o 2007 i 2017, mwy nag unrhyw awdurdod lleol arall yn y rhanbarth yn ystod y cyfnod hwn. Tyfodd poblogaeth Ceredigion 4.9 y cant rhwng 1997 a 2007, ac wedyn gostyngodd 3.0 y cant o 2007 i 2017. Hwn oedd y gostyngiad mwyaf yn y boblogaeth a welwyd yng Nghymru yn y cyfnod 2007 i 2017.

[6] StatsCymru: Amcangyfrifon o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn

**Ffigur 5: Elfennau o newid yn y boblogaeth yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru, dros amser**





Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Gan edrych ar y data sy'n dangos elfennau o newid yn y boblogaeth[7] ledled Canolbarth a De-orllewin Cymru, gwelwn, ers y cyfnod 1991-92, fod mwy o'r newid yn y boblogaeth i'w briodoli i ymfudo net a newidiadau eraill nag i newid naturiol (genedigaethau a marwolaethau). Ers y cyfnod 1991-92, mae ymfudo net a newidiadau eraill wedi bod yn gwbl gadarnhaol, sy'n golygu bod mwy o bobl wedi bod yn symud i mewn i'r ardal nag sydd wedi bod yn symud allan, tra bod newid naturiol wedi bod bron yn gwbl negyddol ar draws y rhanbarth, sy'n golygu bod y gyfradd genedigaethau wedi bod yn is na'r gyfradd marwolaethau.

Gan edrych ar awdurdodau lleol, yn Abertawe y cafwyd y newid net mwyaf yn y boblogaeth oherwydd ymfudo a newidiadau eraill yn ystod y cyfnod 2016-17. Gwelwn hefyd fod y newid yn y boblogaeth oherwydd ymfudo net a newidiadau eraill yn gadarnhaol ym mhob awdurdod yn ystod y cyfnod hwn, ac eithrio yng Ngheredigion, sy'n golygu mai hwn yw'r unig awdurdod yn y rhanbarth ac yng Nghymru lle mae mwy o bobl yn symud i ffwrdd nag sy'n symud i mewn. Gwelwyd newid naturiol negyddol ym mhob un o'r 6 awdurdod lleol yn ystod y cyfnod hwn, sy'n golygu bod nifer y marwolaethau yn uwch na nifer y genedigaethau. Canolbarth a De-orllewin Cymru oedd yr unig ranbarth yng Nghymru lle roedd hyn yn wir ym mhob un o'r awdurdodau. Ym Mhowys y cafwyd y lefel uchaf o newid naturiol negyddol.

[7] StatsCymru: Cydrannau newid yn y boblogaeth, yn ôl awdurdod lleol a chydran

**Ffigur 6: Y newid rhagamcanol yn y boblogaeth yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru dros amser, yn ôl awdurdod lleol**




Ffynhonnell: Amcanestyniadau seiliedig ar 2014 ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru, Llywodraeth Cymru

Canolbarth a De-orllewin Cymru yw'r rhanbarth â'r twf [rhagamcanol][8] isaf yn y boblogaeth dros y 10 a'r 20 mlynedd nesaf, gyda chyfraddau twf rhagamcanol o 1.6 y cant ar gyfer y cyfnod 2018-2028 ac 1.9 y cant ar gyfer y cyfnod 2018-2038.


Mae'r ffigyrau hyn yn seiliedig ar brif amcanestyniadau poblogaeth. Er hyn, cynhyrchir nifer o amcanestyniadau amrywiadol sy'n darparu sefyllfaoedd eraill yn y dyfodol yn seiliedig ar dybiaethau gwahanol o gyfraddau ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo yn y dyfodol. Nid yw'r rhain yn cynrychioli'r lefel uchaf nac isaf, ond maent yn dangos sut fyddai sefyllfa'r boblogaeth, er enghraifft, pe bai ffrwythlondeb yn gostwng yn is na'r hyn a dybir ar gyfer y prif amcanestyniad.

Ceir rhagor o wybodaeth am amrywiolion amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol Cymru, yn seiliedig ar ffigurau 2014, yn ymyl y datganiad Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol Cymru[9].

Ceir rhagor o wybodaeth am amrywiolion amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol ar wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol[10].

[8] StatsCymru: Amcanestyniadau o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn
[9] Llywodraeth Cymru: Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol Cymru (sail 2014)
[10] SYG: Amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol: bwletin ystadegol sail-2016 (Saesneg yn unig)

**Ffigur 7: Y newid canrannol yn y boblogaeth ragamcanol yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru, yn ôl awdurdod lleol, 2018-2038**





Ffynhonnell: Amcanestyniadau seiliedig ar 2014 ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru, Llywodraeth Cymru

Rhagamcenir mai poblogaeth Abertawe a fydd yn tyfu gyflymaf rhwng y cyfnod 2018 a 2028, mewn termau canrannol, a ddilynir yn agos gan Geredigion. Mae data Powys yn awgrymu y bydd y boblogaeth yn lleihau 2.1 y cant rhwng 2018 a 2028 a 6.6 y cant rhwng 2018 a 2038. Mewn dau awdurdod, sef Castell-nedd Port Talbot a Sir Benfro, rhagamcenir y bydd y boblogaeth yn tyfu yn y 10 mlynedd nesaf ac wedyn yn lleihau yn ystod y 10 mlynedd ddilynol.

Gan fod yr amcanestyniadau mudo net yn gyson yn yr amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol, bydd unrhyw newid i'r amcanestyniadau poblogaeth yn y dyfodol yn sgil newid mewn newid naturiol (fel nifer y genedigaethau a'r marwolaethau). Fodd bynnag, mae'r rhain yn seiliedig ar yr amcanestyniadau seiliedig ar 2014 ar gyfer awdurdodau lleol, ac ni ddylid eu trin fel rhagolygon.

**Ffigur 8: Y newid canrannol yn y boblogaeth ragamcanol o bobl 65 a throsodd yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru, yn ôl awdurdod lleol, 2018-2038 (yn seiliedig ar amcanestyniadau 2014)**





Ffynhonnell: Amcanestyniadau seiliedig ar 2014 ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru, Llywodraeth Cymru

Ledled Canolbarth a De-orllewin Cymru, rhagamcenir y bydd y boblogaeth o oedolion 65 oed a throsodd[11] yn tyfu i 246,700 erbyn 2028, sef cynnydd o 17.3 y cant o gymharu â'r ffigur rhagamcanol ar gyfer 2018. Erbyn 2038, rhagamcenir y bydd y ffigur hwn yn cynyddu i 274,500, sef cynnydd o 30.5 y cant o gymharu â'r ffigur rhagamcanol ar gyfer 2018. Rhagamcenir y bydd y boblogaeth o oedolion 65 oed a throsodd yn tyfu ar gyfradd uwch na chyfanswm y boblogaeth yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r data hyn yn seiliedig ar yr amcanestyniadau seiliedig ar 2014 ar gyfer awdurdodau lleol, ac ni ddylid ystyried eu bod yn rhagolwg.

[11] StatsCymru: Amcanestyniadau o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn

**Ffigur 9: Y gallu i siarad Cymraeg a nodwyd gan unigolion tair oed a throsodd yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru, yn ôl awdurdod lleol, 2011**




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, y Swyddfa Ystadegau Gwladol


Yn ôl data'r cyfrifiad[12], dywedodd 206,818 o bobl tair oed a throsodd yn y rhanbarth eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn 2011. Er efallai bod tebygrwydd rhwng nifer y siaradwyr Cymraeg mewn gwahanol ardaloedd, mae hefyd yn bwysig ystyried canran y siaradwyr Cymraeg ym mhob ardal gan y gall hyn amrywio'n sylweddol yn sgil gwahaniaethau ym maint y boblogaeth. Roedd gan Abertawe, er enghraifft, y drydedd nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg yn y rhanbarth, ond y gyfran isaf o siaradwyr Cymraeg fel canran o'r boblogaeth (11.4 y cant).

Y cyfrifiad yw'r ffynhonnell allweddol o wybodaeth am y nifer o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth hefyd yn casglu gwybodaeth am allu'r ymatebwyr i siarad Cymraeg a pha mor aml y maent yn ei defnyddio (dim ond gwybodaeth am bobl 16 oed a throsodd y mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn ei chasglu tra bod yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn casglu gwybodaeth am bobl tair oed a throsodd fel y cyfrifiad). Yn hanesyddol, mae amcangyfrifon o allu pobl yn y Gymraeg o arolygon o gartrefi yn uwch na'r rhai a gynhyrchir gan y cyfrifiad ac nid yw'r union reswm dros hyn yn hysbys. Mae'n debygol bod gwahaniaethau yn y ffordd y caiff yr arolygon hyn a'r cyfrifiad eu cynnal yn effeithio ar yr amcangyfrifon. Ceir rhagor o wybodaeth mewn blog a gyhoeddwyd gan y Prif Ystadegydd[13] sy'n trafod data ar y Gymraeg.

[12] StatsCymru: Siaradwyr Cymraeg fesul Awdurdod lleol, rhyw a grwpiau oedran manwl, cyfrifiad 2011
[13] Diweddariad gan y Prif Ystadegydd: trafodaeth am ddata ar y Gymraeg sy'n deillio o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

Yn y cyfamser, dengys data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth[14], fod tua 33.6 y cant o drigolion y rhanbarth dros dair oed wedi nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2018. Roedd hyn yn cyfateb i gynnydd o tua 6.1 y cant o gymharu â data ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2008, sef y cynnydd canrannol mwyaf o blith rhanbarthau Cymru dros y cyfnod hwn. Ceredigion oedd yr awdurdod â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y rhanbarth ym mis Mehefin 2018, gyda chyfradd o tua 58.8 y cant o bobl dros dair oed yn nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Castell-nedd Port Talbot oedd yr awdurdod â'r gyfradd isaf dros yr un cyfnod, yr amcangyfrifir ei bod yn cyfateb i 22.5 y cant. Mae canrannau rhanbarthol wedi'u cyfrifo ar sail data wedi'u talgrynnu a gyhoeddwyd.

**Ffigur 10: Cofrestriadau myfyrwyr mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru, 2016-17**




Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr addysg uwch, yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch

Yn 2016-17, cafwyd bron 42,000 o gofrestriadau ar gyrsiau Addysg Uwch (AU)[15] yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru, sy'n cyfateb i fwy na 30 y cant o gofrestriadau myfyrwyr yng Nghymru. Prifysgol Abertawe a gafodd y nifer fwyaf o gofrestriadau AU yn y rhanbarth, sy'n cyfateb i tua 50 y cant o gyfanswm y cofrestriadau yn y rhanbarth. Noder bod y canrannau wedi'u cyfrifo ar sail ffigurau wedi'u talgrynnu a gyhoeddwyd.


[14] StatsCymru: Amcangyfrifon Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth o bobl 3 oed a throsodd sydd yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn ôl awdurdod lleol a mesur
[15] StatsCymru: Cofrestriadau myfyrwyr yng Nghymru yn ôl sefydliad, lefel a dull astudio

## Iechyd

Mae disgwyliad oes yn fesur o ba mor hir, ar gyfartaledd, y gall pobl ddisgwyl byw gan ddefnyddio amcangyfrifon o'r boblogaeth a nifer y marwolaethau. Mae disgwyliad oes iach yn amcangyfrif nifer y blynyddoedd a dreulir mewn iechyd cyffredinol da iawn neu dda.

Dengys data o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol[16], yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru rhwng 2015 a 2017, mai Powys a Cheredigion ar y cyd oedd â'r disgwyliad oes uchaf ar gyfer merched ar gyfer y cyfnod hwn. Ceredigion oedd yr awdurdod lleol â'r disgwyliad oes iach uchaf ar adeg geni ar gyfer dynion ac mai Powys oedd â'r disgwyliad oes uchaf ar adeg geni ar gyfer dynion a'r disgwyliad oes iach uchaf ar gyfer merched. Ledled y rhanbarth, roedd canran disgwyliad oes mewn iechyd da yn amrywio o 7.3 y cant ar gyfer dynion a 9.2 y cant ar gyfer merched.

**Ffigur 11: Oedolion 16 oed a throsodd sy'n dangos 0 neu 1 ymddygiad ffyrdd iach o fyw, yn ôl awdurdod lleol, 2016-17 a 2017-18* (wedi'u safoni yn ôl oedran)**




* Cyfunwyd y cyfnodau 2016-17 a 2017-18 at ddibenion ansawdd data


Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Ledled Canolbarth a De-orllewin Cymru yn 2016-17 a 2017-18, dangosodd 10 y cant o oedolion 16 oed neu drosodd 0 neu 1 o'r pum ymddygiad ffyrdd iach o fyw[17,18].

O ystyried awdurdodau lleol yn y rhanbarth, Ceredigion a Phowys oedd yr awdurdodau lle y cofnodwyd y ganran isaf o lefelau isel o ymddygiadau ffyrdd iach o fyw (7 y cant), tra mai Castell-nedd Port Talbot oedd â'r gyfran uchaf o oedolion 16 oed neu drosodd a ddangosodd 0 neu 1 ymddygiad iach (15 y cant).

[16] SYG: Disgwyliad oes mewn cyflwr iach, y DU: 2015 i 2017 (Saesneg yn unig)
[17] Arolwg Cenedlaethol Cymru: iechyd poblogaethau
[18] lle mae ymddygiadau iach yn cynnwys peidio ag ysmygu, yfed 14 o unedau neu lai o alcohol bob wythnos ar gyfartaledd, bwyta o leiaf 5 dogn o ffrwythau a llysiau y diwrnod blaenorol, cael mynegai màs y corff iach a bod yn gorfforol egnïol am o leiaf 150 o funudau yr wythnos flaenorol.

**Ffigur 12: Canran yr oedolion 16 oed a throsodd a nododd eu bod mewn iechyd cyffredinol da neu dda iawn, yn ôl awdurdod lleol, 2016-17 a 2017-18* (wedi'i safoni yn ôl oedran)**




* Cyfunwyd y cyfnodau 2016-17 a 2017-18 at ddibenion ansawdd data

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

O fewn y rhanbarth, nododd 71 y cant o oedolion 16 oed a throsodd eu bod mewn iechyd cyffredinol da neu dda iawn[19] yn 2016-17 a 2017-18 wedi'u cyfuno. O ddadansoddi'r data yn ôl awdurdod lleol, gwelwn mai Powys oedd â'r lefel uchaf o iechyd hunangofnodedig, gyda 76 y cant o oedolion 16 oed neu drosodd yn nodi eu bod mewn iechyd cyffredinol da neu dda iawn. Castell-nedd Port Talbot oedd â'r gyfran isaf yn y rhanbarth, sef 67 y cant.

[19] Arolwg Cenedlaethol Cymru: iechyd poblogaethau


## Cyflogaeth



| Y gyfradd cyflogaeth (y boblogaeth 16-64 oed) | Y gyfradd diweithdra (y boblogaeth 16 oed a throsodd) | Y gyfradd anweithgarwch economaidd (heb gynnwys myfyrwyr) (y boblogaeth 16-64 oed) |
|---|---|---|
| 71.3% | 4.2% | 21.0% |

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r data yn ymwneud â'r flwyddyn a ddaeth i ben 30 Mehefin 2018

**Ffigur 13: Y gyfradd cyflogaeth yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru, 1999-2018**




Nodiadau:

Mae data ar gyfer 1999-2004 ar gyfer blwyddyn a ddaeth i ben 28 Chwefror. Mae data o 2005 ymlaen ar gyfer blwyddyn a ddaeth i ben 30 Mehefin.* Nid ystyriwyd bod data 1999 na 2000 ar gyfer y lefel daearyddiaeth hon yn ddigon cadarn i'w cyhoeddi.

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Y lefel cyflogaeth yw cyfanswm y bobl (16+ oed) sydd mewn cyflogaeth a'r gyfradd cyflogaeth[20] yw canran y boblogaeth (16-64 oed) sydd mewn cyflogaeth. O blith y tri rhanbarth, Canolbarth a De-orllewin Cymru oedd â'r gyfradd cyflogaeth isaf yn y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Mehefin 2018.

[20] StatsCymru: Cyfradd gyflogaeth yn ôl ardal leol yng Nghymru, blwyddyn a rhyw

Y rhanbarth hwn hefyd oedd â'r ystod fwyaf ar gyfer yn y gyfradd cyflogaeth. Powys yw'r awdurdod lleol â'r gyfradd cyflogaeth uchaf yn y wlad, tra mai Castell-nedd Port Talbot sydd â'r gyfradd cyflogaeth isaf yn y wlad. Ers 2001, mae cyfradd cyflogaeth y rhanbarth wedi cynyddu 5.2 pwynt canran, er bod hyn hefyd wedi amrywio ar draws awdurdodau lleol. Yn Sir Gaerfyrddin, cynyddodd y gyfradd 10.2 y cant, tra yn Abertawe, arhosodd y gyfradd cyflogaeth yn gymharol sefydlog, gan ostwng 0.3 pwynt canran.


Y lefel diweithdra yw cyfanswm y bobl sy'n ddi-waith a'r gyfradd diweithdra[21] yw canran y boblogaeth economaidd weithgar sy'n ddiwaith (gan ddefnyddio diffiniad y Sefydliad Llafur Rhyngwladol o ddiweithdra). Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2018, y gyfradd diweithdra yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru oedd 4.2 y cant, sef gostyngiad o 1.6 pwynt canran o gymharu â 2001. Cyfradd diweithdra Sir Benfro a welodd y newid mwyaf sylweddol yn ystod y cyfnod hwn, gan ostwng 3.2 pwynt canran ers 2001, ddwywaith gymaint â'r gostyngiad rhanbarthol. Yn y cyfamser, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Mehefin 2018, Powys oedd â'r gyfradd diweithdra isaf yng Nghymru.

Y gyfradd anweithgarwch economaidd[22] yw canran y boblogaeth nad yw'n gweithio ac nad yw'n chwilio am waith nac ar gael i weithio. Mae pobl economaidd anweithgar yn cynnwys pobl sy'n gofalu am y teulu a/neu'r cartref, pobl sydd wedi ymddeol a phobl â salwch neu anabledd. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2018, y gyfradd anweithgarwch economaidd yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru oedd 21.0 y cant, sef gostyngiad o 5.8 pwynt canran o gymharu â 2001. Roedd y newid hwn ychydig yn llai na'r newid a welwyd ledled Cymru. Cyfradd anweithgarwch economaidd Sir Gaerfyrddin a welodd y newid mwyaf sylweddol yn ystod y cyfnod hwn, gan ostwng 9.9 pwynt canran ers 2001.

Ceir rhagor o wybodaeth ar ystadegau economegol rhanbarthol ym Mhrofiliau rhanbarthol marchnad lafur ac economaidd Llywodraeth Cymru[23].

[21] StatsCymru: Cyfraddau diweithdra ILO yn ôl ardaloedd lleol yng Nghymru a blwyddyn
[22] StatsCymru: Cyfraddau anweithgarwch economaidd (ac eithrio myfyrwyr) yn ôl ardal leol yng Nghymru a blwyddyn
[23] Llywodraeth Cymru: Proffiliau rhanbarthol marchnad lafur ac economaidd

**Ffigur 14: Cyflogaeth yn y gweithle, yn ôl awdurdod lleol, 2017**





Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol; Arolwg Cyflogaeth y Gofrestr Fusnes (BRES), y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Dengys data cyflogaeth yn y gweithle[24],[25] yn 2017, fod tua 408,000 o bobl yn gweithio yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru, gyda mwy na chwarter ohonynt wedi'u lleoli yn Abertawe. Roedd lefel gyfartalog cyflogaeth yn chwe awdurdod lleol y rhanbarth tua 68,000 o bobl, ond y lefel ganolrifol, sef 59,900 o bobl, oedd yr un uchaf yng Nghymru.

Yn y sector Gwybodaeth a chyfathrebu y gwelwyd y cynnydd mwyaf yn nifer y gweithwyr o bell ffordd dros y cyfnod 2007 i 2017, tra yn y sector adeiladu y gwelwyd y gostyngiad canrannol mwyaf. Fodd bynnag, wrth ystyried nifer y gweithwyr, y sector Cyfanwerthu, manwerthu, trafnidiaeth, gwestai a bwyd a welodd y gostyngiad mwyaf dros y cyfnod hwn, gyda gostyngiad o tua 8,000 o weithwyr yn y rhanbarth. Noder bod newidiadau canrannol yn seiliedig ar ddata wedi'u talgrynnu a gyhoeddwyd.

[24] StatsCymru: Cyflogaeth yn y gweithle yn ôl ardaloedd lleol yng Nghymru a diwydiant eang
[25] Cesglir data cyflogaeth yn y gweithle gan fusnesau drwy Arolwg Cyflogaeth y Gofrestr Fusnes (BRES), ac mae'n canolbwyntio ar ddata cyflogaeth a chyflogeion. Mae hyn yn cyferbynnu â data'r Arolwg o'r Gweithlu a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, a ddaw o ddata a gesglir yn bennaf o breswylwyr cartrefi preifat.

**Ffigur 15: Y newid ym mhoblogaethau awdurdodau lleol yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru o ganlyniad i bobl yn cymudo i mewn i'r rhanbarth ac allan ohono, 2017**





Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Yn gyffredinol, y newid net yn nifer y gweithwyr ledled y rhanbarth oedd -8,000, sy'n dangos bod mwy o bobl yn cymudo allan o'r rhanbarth nag i mewn iddo. Mae hyn yn cynnwys cymudo ar draws y ffin[26] i ardaloedd yn Lloegr fel Swydd Amwythig a Swydd Henffordd. Noder bod newidiadau net a data ar gyfer y rhanbarthau wedi'u cyfrifo ar sail data wedi'u talgrynnu a gyhoeddwyd.

Dengys data o 2017 fod y newid net yn y boblogaeth o weithwyr[27] yn negyddol yn hanner awdurdodau lleol y rhanbarth, sy'n golygu, yn yr awdurdodau hyn, fod mwy o bobl yn cymudo allan o'r awdurdod i fynd i'r gwaith nag sy'n cymudo i mewn iddo o awdurdodau eraill. Abertawe, sef yr awdurdod lleol mwyaf poblog yn y rhanbarth, a welodd y mewnlifiad mwyaf o weithwyr o awdurdodau lleol eraill, tra mai Sir Gaerfyrddin a Chastell-nedd Port Talbot, sef yr ail a'r trydydd awdurdod lleol mwyaf poblog, a welodd yr all-lif mwyaf o weithwyr.

26 StatsCymru: Patrymau cymudo manwl yng Nghymru yn ôl awdurdod lleol yng Nghymru
27 StatsCymru: Patrymau cymudo yn ôl awdurdod lleol yng Nghymru a mesur

**Ffigur 16: Pellter cyfartalog teithiau i'r gwaith (km) gan weithwyr 16-74 oed yn 2011, yn ôl yr awdurdod lleol lle maent yn preswylio**




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Dengys data Cyfrifiad 2011[28], ar gyfartaledd, bod gan breswylwyr 16-74 oed sy'n gweithio ym mhob awdurdod lleol yn y rhanbarth, ac eithrio Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe, bellteroedd hirach i gymudo i'r gwaith na'r cyfartaledd yng Nghymru. Trigolion Powys oedd â'r teithiau cymudo hwyaf i'r gwaith o ran pellter. Y rhanbarth hwn oedd â'r ystod leiaf mewn pellter cymudo cyfartalog o blith unrhyw un o ranbarthau Cymru.


Fel yng ngweddill y wlad, dengys data 2018[29] fod gan y mwyafrif helaeth o fusnesau lai na 10 cyflogai. Roedd cyfran y microfusnesau yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru yn uwch nag yn unman arall yn y wlad, tra bod cyfran y busnesau mawr yn is. Mae canrannau yn seiliedig ar ddata wedi'u talgrynnu.

Yn hanner yr awdurdodau lleol yn y rhanbarth yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2017, roedd cyfran y dynion a'r merched 18-64 oed heb unrhyw gymwysterau[30] yn uwch na'r ffigur ar gyfer Cymru, ac roedd gan dri o'r awdurdodau lleol hyn, sef Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Chastell-nedd Port Talbot, ganran is o ddynion a merched 16-64 oedd â chymwysterau hyd at NQF lefel 2 neu'n uwch, na'r ffigur ar gyfer Cymru, sef 78.5 y cant.

[28] SYG: Dadansoddiad Cyfrifiad 2011, Pellter a deithiwyd i'r gwaith (Saesneg yn unig)
[29] StatsCymru: Mentrau yn ôl diwydiant (ISC2007), band maint ac ardal
[30] StatsCymru: Lefel uchaf o gymhwyster sydd gan oedolion o oedran gweithio yn ôl awdurdod lleol

## Trafnidiaeth

### Ffigur 17: Seilwaith Trafnidiaeth yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru




Ffynhonnell: Arolwg Ordnans

Mae seilwaith trafnidiaeth Canolbarth a De-orllewin Cymru yn cynnwys diwedd traffordd yr M4, yn ogystal â phump o'r naw porthladd yng Nghymru – sy'n fwy na'r ddau ranbarth arall yng Nghymru. Hefyd, mae dau borthladd fferi (sef Abergwaun a Doc Penfro) yn y rhanbarth.


Aberdaugleddau yw'r porthladd[31] mwyaf yng Nghymru a'r pedwerydd yn y DU yn ôl swm y nwyddau sy'n cael eu cludo, yn bennaf drwy draffig olew a nwy. Deliodd â 32.0 Mt o draffig yn 2017, sef 6.6 y cant o gyfanswm y DU ar gyfer 2017. Mae traffig cludo nwyddau Aberdaugleddau yn 62.0 y cant o holl draffig porthladdoedd Cymru.

Yr ail borthladd pwysicaf yng Nghymru yn ôl swm y nwyddau sy'n cael eu cludo yw Port Talbot, sy'n mewnforio mwyn haearn a glo yn bennaf ar gyfer y gwaith dur cyfagos.

Mae ymchwil i gyflymder cyfartalog cerbydau ar yr M4[32] yn dangos mai'r M4 drwy Gastell-nedd Port Talbot oedd â'r cyflymder cyfartalog isaf yn y rhanbarth yn ystod adegau prysur rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2016.

31 Llywodraeth Cymru: Cludiant Môr
32 Llywodraeth Cymru: Cyflymder cerbydau ar draffyrdd yng Nghymru: Ebrill i Mehefin 2016

**Ffigur 18: Dulliau o deithio i'r gwaith a ddefnyddir gan drigolion cyflogedig Canolbarth a De-orllewin Cymru rhwng 16 a 74 oed, 2011**




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Yn ôl data'r cyfrifiad o 2011[33], roedd 74.7 y cant o weithwyr 16-74 oed a oedd yn byw yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru yn teithio i'r gwaith yn y car, mewn fan neu ar feic modur, sgwter neu foped. Mae hyn yn cyfateb i tua 293,000 o bobl ledled y rhanbarth. Roedd 12.3 y cant (48,000 o bobl) yn teithio i'r gwaith ar droed neu ar feic. Roedd 4.1 y cant (16,000 o bobl) yn teithio i'r gwaith ar drên neu mewn bws, bws mini neu goets.


Yn 2017-18, ledled Canolbarth a De-orllewin Cymru, oedolion 16 oed a throsodd yn Abertawe oedd fwyaf tebygol o gerdded am fwy na 10 munud fel dull teithio[34], gyda 73 y cant yn gwneud hynny o leiaf unwaith y mis. Sir Gaerfyrddin oedd yr awdurdod lleol roedd hyn yn lleiaf tebygol o ddigwydd (51 y cant). Yn yr un cyfnod, yr awdurdod lleol â'r ganran uchaf o oedolion 16 oed a throsodd a oedd yn defnyddio beic fel dull teithio o leiaf unwaith y mis oedd Ceredigion (17 y cant). Yn Sir Gaerfyrddin y cofnodwyd y defnydd rheolaidd isaf o feiciau (4 y cant).

Yn 2016-17, roedd y mwyafrif o ddisgyblion ysgol uwchradd yng Nghastell-nedd Port Talbot yn teithio i'r ysgol yn y car (51 y cant). Yn y rhanbarth, y disgyblion hyn, ochr yn ochr â disgyblion o awdurdod lleol Abertawe, oedd fwyaf tebygol hefyd o gerdded i'r ysgol ar eu pen eu hunain neu gyda phlant eraill (28 y cant yr un). Yn y pedwar awdurdod lleol arall yn y rhanbarth, roedd mwyafrif o ddisgyblion yn teithio i'r ysgol ar y bws.

Gan edrych ar ddisgyblion ysgol gynradd yn y rhanbarth dros yr un cyfnod, roedd y disgyblion wedi'u rhannu'n bennaf rhwng teithio i'r ysgol yn y car neu ar droed. Disgyblion yn Sir Benfro oedd fwyaf tebygol o deithio yn y car (76 y cant) a disgyblion yn Abertawe oedd lleiaf tebygol o wneud hynny (51 y cant). O ran cerddwyr, yn Abertawe y cofnodwyd y gyfran uchaf (51 y cant) ac yng Ngheredigion roedd y gyfran isaf (21 y cant).

[33] Nomis, SYG: Trafnidiaeth i'r gwaith (Tabl QS701EW) (Saesneg yn unig)
[34] Llywodraeth Cymru: Teithio Llesol: cerdded a beicio (Ebrill 2017 i Mawrth 2018)

**Ffigur 19: Teithiau trên a wnaed yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru dros amser, yn ôl awdurdod lleol**




Ffynhonnell: Tueddiadau Rheilffyrdd Cenedlaethol, Proffiliau Defnyddwyr Rhanbarthol, Swyddfa'r Rheilffyrdd a'r Ffyrdd


Ledled y rhanbarth, gwnaed bron 2.5 miliwn o deithiau trên[35] yn 2016-17, sef cynnydd o bron 875,000 o gymharu â 2006-07. Cynyddodd nifer y teithiau trên 63.4 y cant yn Abertawe dros y cyfnod hwn o 10 mlynedd, sy'n cyfrif am 40.6 y cant o'r cynnydd rhanbarthol yn nifer y teithiau trên. Roedd y naill ffigur a'r llall yn fwy nag mewn unrhyw awdurdod lleol arall yn y rhanbarth. Hefyd, Abertawe oedd â'r gyfran uchaf o deithiau trên a ddechreuodd a/neu a orffennodd yn yr awdurdod yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru yn 2016-17, sef 36.7 y cant.

Yn 2016-17, roedd 61 o orsafoedd rheilffordd[36] yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru, gyda 2 o'r rhain, sef gorsafoedd Abertawe a Chastell-nedd, ymhlith yr 20 o orsafoedd prysuraf yng Nghymru o ran nifer y mynediadau a'r ymadawiadau.

[35] StatsCymru: Teithiau rheilffyrdd gan deithwyr fesul Awdurdod Lleol a blwyddyn
[36] Llywodraeth Cymru: Defnydd gorsafoedd rheilffordd (Ebrill 2016 i Mawrth 2017)

## Yr Amgylchedd

### Ffigur 20: Arfordir Treftadaeth ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru





Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

Yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru, mae Bro Gŵyr, De Sir Benfro, Marloes a Dale, Bae Sain Ffraid, Penrhyn Dewi, Dinas Head, Llandudoch a Threwyddel, ac arfordiroedd Ceredigion wedi'u dynodi'n Arfordir Treftadaeth[37] er mwyn eu diogelu rhag datblygiadau ansensitif. Yn y rhanbarth hwn hefyd ceir Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig[38] Ynys Dewi ac Arfordir Penrhyn Dewi; Arfordir Castellmartin;  Skomer, Skokholm a 'r Moroedd oddi ar Sir Benfro; Grassholm; Bae Caerfyrddin; Cilfach Tywyn; Elenydd-Mallaen; ac Aber Afon Dyfi, yn ogystal â rhannau o Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig Berwyn a Gogledd Bae Ceredigion. Diben y rhain yw diogelu rhywogaethau adar sydd naill ai'n brin neu'n agored i niwed neu sydd, yn achos adar mudol, yn ymweld ag arfordiroedd Cymru yn rheolaidd.

[37] Lle: Arfordir Treftadaeth
[38] Lle: Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig

**Ffigur 21: Amgylchedd Naturiol Dynodedig yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru**




Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Canolbarth a De-orllewin Cymru yn gartref i Barciau Cenedlaethol[39] Arfordir Penfro a Bannau Brycheiniog, yn ogystal â Bro Gŵyr, sydd wed'i dynodi'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AOHNE)[40].

## Ansawdd Aer


Castell-nedd Port Talbot oedd â'r crynodiad mwyaf o nitrogen deuocsid[41] yn yr aer yn y rhanbarth yn 2017 (sef 10 µg/m$^3$), a'r crynodiad lleiaf a nodwyd oedd 4 µg/m$^3$ yng Ngheredigion, yn ogystal ag ym Mhowys. Mae'r crynodiad a nodwyd wedi lleihau ym mhob awdurdod lleol ledled y rhanbarth ers 2007.

## Ynni

Yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru yn 2017, roedd capasiti o 1,514 megawat (MW) o ynni carbon isel[42], sef 41 y cant o gyfanswm Cymru, sy'n fwy na'r capasiti yn nau ranbarth arall Cymru. Abertawe oedd yr awdurdod lleol gyda'r capasiti lleiaf o ynni carbon isel yn y rhanbarth (62 MW). Roedd gan bob un o'r awdurdodau lleol eraill yn y rhanbarth hwn gapasiti rhwng 245MW and 358MW. Roedd cyfanswm o tua 24,900 o brosiectau ynni carbon isel ledled y rhanbarth yn 2017. Er bod cyfran fawr ohonynt (80 y cant) ar gyfer ynni solar (ffotofoltäig neu thermol), roedd 64 y cant o brosiectau gwynt ar y tir Cymru, 62 y cant o brosiectau biomas Cymru a 54 y cant o brosiectau pympiau gwres Cymru wedi'u lleoli yn y rhanbarth.[43]

[39] Lle: Parciau Cenedlaethol
[40] Lle: Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol
[41] StatsCymru: Dangosyddion Ansawdd Aer, fesul Awdurdod Lleol
[42] StatsCymru: Cynhyrchu Ynni Carbon Isel yn ôl Awdurdod Lleol a Technoleg
[43] (r) Adolygwyd y paragraff hwn ar 23/08/2019

**Ffigur 22: Trin gwastraff trefol yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru**




Ffynhonnell: WasteDataFlow, Cyfoeth Naturiol Cymru


Yn 2017-18, lefel gwastraff trefol awdurdodau lleol[44] a gafodd ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio oedd 62 y cant yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru, o gymharu â 51 y cant yn 2012-13, sef y flwyddyn gynharaf y mae data y gellir eu cymharu'n uniongyrchol ar gael ar ei chyfer.

Roedd y gyfradd ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio a gofnodwyd yn amrywio rhwng awdurdodau lleol, o 57 y cant yn Sir Benfro, i 64 y cant yng Ngheredigion a Sir Gaerfyrddin.

Lefel gwastraff trefol awdurdodau lleol a anfonwyd i safleoedd tirlenwi[45] yn 2017-18 oedd 26 y cant, o gymharu â 40 y cant yn 2012-13.

[44] StatsCymru: Cyfraddau ailddefnyddio/ailgylchu/compostio blynyddol gan awdurdod lleol
[45] StatsCymru: Rheolaeth o wastraff blynyddol gan ddull rheoli

**Ffigur 23: Gwastraff gweddilliol blynyddol cartrefi a gynhyrchwyd y pen (kg) yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru, yn ôl awdurdod lleol, 2017-18**




Ffynhonnell: WasteDataFlow, Cyfoeth Naturiol Cymru

Amrywiai gwastraff gweddilliol blynyddol cartrefi[46] a gynhyrchwyd ledled Canolbarth a De-orllewin Cymru yn 2017-18 o 130kg yn Abertawe i 242kg yn Sir Benfro. Ym Mhowys y cofnodwyd y newid mwyaf mewn gwastraff gweddilliol cartrefi a gynhyrchir y pen ers 2012-13, sef gostyngiad o 46 y cant, neu 113kg y pen. Yn y cyfamser, cynhyrchodd trigolion Ceredigion 61kg yn fwy o wastraff gweddilliol cartrefi, ar gyfartaledd, yn 2017-18 nag yn 2012-13.

[46] StatsCymru: Nifer blynyddol o wastraff cartrefi wedi'u cynhyrchu pob person (cilogramau) gan awdurdod lleol

## Ffyniant

Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) yw'r gwerth a gynhyrchir gan unrhyw uned sy'n ymwneud â chynhyrchu nwyddau a gwasanaethau. Mae GYG y pen yn ffordd ddefnyddiol o gymharu rhanbarthau o wahanol faint. Fodd bynnag, nid yw'n mesur cynhyrchiant rhanbarthol.

Dylid nodi bod ffigurau GYG rhanbarthol yn ddarostyngedig i gyfyngiadau, gan fod modd iddynt gael eu heffeithio gan ffactorau fel cymudo rhwng rhanbarthau, a'r demograffeg a mathau o swyddi gwahanol mewn rhanbarthau. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn erthygl blog[47] y Swyddfa Ystadegau Gwladol . Hefyd, sylwer bod y ffigurau rhanbarthol yn cael eu dosrannu o gyfansymiau cenedlaethol ar sail dangosyddion rhanbarthol. Mae'r dangosyddion rhanbarthol, sy'n cynnwys data gweinyddol ac arolygon, yn cael eu hystyried fel y ffynonellau mwyaf priodol, ond gallant arwain at ddyraniadau rhanbarthol amherffaith.

Yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru, GYG y pen[48] oedd £17,616 yn 2017[49]; sef yr isaf o blith tri rhanbarth Cymru. Roedd gan bob un o'r awdurdodau lleol ledled y rhanbarth lefelau GYG y pen a oedd yn is na gwerthoedd GYG y pen Cymru a'r DU. Abertawe oedd â'r lefel uchaf o GYG y pen yn y rhanbarth (£19,321), a Sir Gaerfyrddin oedd â'r lefel isaf (£15,870). Golyga hyn mai Canolbarth a De-orllewin Cymru oedd â'r ystod leiaf o GYG y pen o blith y tri rhanbarth economaidd yng Nghymru. Ledled y rhanbarth, cynyddodd GYG y pen 1.2 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a 71.8 y cant ers 1999. Yng Ngheredigion y gwelwyd y cynnydd canrannol mwyaf mewn GYG ers 1999 (sef 76.9 y cant). Ar y llaw arall, yn Sir Benfro y gwelwyd y cynnydd mwyaf o gymharu â 2016, sef 7.8 y cant.


Yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru, Incwm Gwario Gros Aelwydydd (GDHI)[50] y pen oedd £15,573 yn 2016, sef yr isaf o blith y tri rhanbarth economaidd yng Nghymru. Ym Mhowys y cofnodwyd y lefel uchaf o GDHI (£16,303), ac yn Abertawe roedd y lefel isaf (£14,911). Ledled y rhanbarth, cynyddodd GDHI y pen 0.2 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a 57.6 y cant ers 1999.

Yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru, enillion gros canolrifol yr wythnos[51] cyflogeion llawn amser yn 2017 (sef y data cyfunol rhanbarthol mwyaf diweddar sydd ar gael) oedd £484.90, gydag enillion canolrifol yn amrywio rhwng awdurdodau lleol o £446.70 yn Sir Benfro i £568.10 yng Nghastell-nedd Port Talbot, sef yr unig awdurdod yng Nghymru lle roedd enillion yn fwy na chanolrif y DU. Yn 2018, cynyddodd enillion canolrifol ym mhob awdurdod lleol ledled y rhanbarth ac eithrio yn Sir Gaerfyrddin, lle y gostyngodd enillion canolrifol 2.8 y cant, neu £14.30. Yn Sir Benfro y cofnodwyd yr enillion canolrifol lleiaf (sef £457.30), a Chastell-nedd Port Talbot oedd â'r enillion canolrifol mwyaf (sef £586.70). Yn Abertawe y gwelwyd y cynnydd canrannol mwyaf mewn enillion canolrifol rhwng 2017 a 2018, sef 6.9 y cant (£32.80).

47 National Statistical, SYG: Mind the gap: why the UK might not be the most regionally unequal country (Saesneg yn unig)
48 StatsCymru: Gwerth Ychwanegol Crynswth yn ôl mesur, rhanbarth economaidd yng Nghymru a blwyddyn
49 Y data a gynhwyswyd yw'r dull gweithredu cytbwys ar gyfer GYG
50 StatsCymru: Incwm Aelwydydd Crynswth i'w Wario yn ôl mesur, rhanbarth economaidd yng Nghymru a blwyddyn
51 StatsCymru: Enillion wythnosol gros cyfartalog (canolrif) yn ôl ardaloedd lleol yng Nghymru a blwyddyn (£)

Mae data'r SYG[52] yn amcangyfrif cyfran y gweithwyr sy'n ennill llai na'r cyflog byw (sef £8.75 yn 2018, fel y'i diffinnir gan y Living Wage Foundation). Yn 2018, dengys y canlyniadau, ledled y rhanbarth, fod ystod o 12.0 pwynt canran rhwng awdurdodau lleol – y ganran isaf oedd 22.6 y cant ym Mhowys a'r ganran uchaf oedd 34.6 y cant yn Sir Benfro. Noder bod yr amcangyfrifon hyn ar gyfer yr awdurdodau lleol yn amrywio o ran eu hansawdd, sy'n bennaf yn adlewyrchu maint y samplau.

**Ffigur 24: Disgyblion 5-15 oed a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru, yn ôl awdurdod lleol, 2017-18**




Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), Llywodraeth Cymru

Yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru, roedd 16.8 y cant o ddisgyblion 5-15 oed yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim[53] yn 2017/18, sy'n cyfateb i gynnydd o 0.8 pwynt canran o gymharu â'r 10 mlynedd flaenorol. Yng Nghastell-nedd Port Talbot y cofnodwyd y gyfradd uchaf (sef 22.1 y cant), ac ym Mhowys y cofnodwyd yr un isaf (sef 11.2 y cant). Yng Nghastell-nedd Port Talbot gwelwyd cynnydd o 1.8 pwynt canran yn nifer y disgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn 2007/08, sy'n fwy nag mewn rhannau eraill o'r rhanbarth.

[52] SYG: Arolwg blynyddol o oriau ac enillion (ASHE) - Amcangyfrifon nifer a chyfran o swyddi gyda thâl wrth yr awr sy'n is na'r gyflog byw, fesul daearyddiaeth gwaith, awdurdod lleol ac etholaeth seneddol, y DU, Ebrill 2017 ac Ebrill 2018 (Saesneg yn unig)
[53] StatsCymru: Disgyblion 5-15 oed sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a blwyddyn

## Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)[54] yw dull swyddogol Llywodraeth Cymru o fesur amddifadedd cymharol mewn ardaloedd bach. Ei nod yw dangos yr ardaloedd bach hynny lle mae'r crynodiadau uchaf o nifer o wahanol fathau o amddifadedd. Amddifadedd yw diffyg mynediad at gyfleoedd ac adnoddau y gellid eu disgwyl o bosib yn ein cymdeithas. Gall hyn fod yn nhermau nwyddau materol neu allu unigolyn i gymryd rhan ym mywyd cymdeithasol arferol y gymuned.

Mae rhanbarth y Canolbarth a'r De-orllewin yn cynnwys 547 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is. Mae hyn yn 29 y cant o'r holl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru.

Wrth edrych ar yr 191 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ar draws Cymru yn 2014 - sef y 10 y cant mwyaf difreintiedig, mae 41 ohonynt yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru. Mae hwn yn cyfateb i 7 y cant o'r holl Ardaloedd Gynnyrch Ehangach Haen Is yn y rhanbarth, a 21 y cant o'r 10 y cant mwyaf difreintiedig ledled Cymru.

Sylwch y bydd MALIC yn cael ei ddiweddaru ym mis Tachwedd 2019, gan gynnwys offeryn ar-lein i roi rhagor o fanylion ystadegol fesul rhanbarth economaidd.


## Busnesau

Yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru, roedd 93.3 y cant o'r busnesau a sefydlwyd yn 2012[55] yn dal i fodoli ar ôl eu blwyddyn gyntaf, ac roedd 46.0 y cant yn dal i weithredu ar ôl pum mlynedd. Yng Ngheredigion y cofnodwyd y gyfradd oroesi uchaf ar gyfer busnesau a sefydlwyd yn 2012, ond hwn hefyd oedd y rhanbarth lle y dechreuwyd y nifer leiaf o fusnesau. Mae canrannau wedi'u cyfrifo ar sail ffigurau wedi'u talgrynnu a gyhoeddwyd.

[54] Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru
[55] StatsCymru: Cyfradd goroesi busnesau yn ôl rhanbarth a blwyddyn y goroesiad

## Seilwaith Digidol

**Ffigur 25: Canran y cartrefi a'r busnesau yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru a allai gael gwasanaeth band eang cyflym iawn neu wibgyswllt, yn ôl awdurdod lleol, Medi 2018**




Ffynhonnell: Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd, y Swyddfa Gyfathrebu


Yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru ym mis Medi 2018, roedd cysylltiad band eang sefydlog cyflym iawn (30Mbit/e neu'n uwch) neu gysylltiad band eang sefydlog gwibgyswllt (300 Mbit/e neu'n uwch)[56] ar gael i 89 y cant o'r boblogaeth, yn amrywio o 77 y cant ym Mhowys i 98 y cant yn Abertawe.

Ym mis Medi 2018, roedd cysylltiad band eang sefydlog gwibgyswllt (300Mbit/e neu'n uwch) ar gael i 35 y cant o'r cartrefi a'r busnesau. Roedd hyn 14 pwynt canran yn is na'r ffigur ar gyfer y DU, sef 49 y cant ym mis Medi 2018. Roedd canran y cartrefi a'r busnesau oedd yn gallu cael gafael ar wasanaeth band eang cyflym iawn a gwibgyswllt yn amrywio o 5 y cant yn Sir Benfro i 75 y cant yn Abertawe.

Roedd gwasanaethau ffeibr llawn[57] ar gael i 8 y cant o'r cartrefi a'r busnesau ledled y rhanbarth ym mis Medi 2018. Roedd y ffigur hwn yn uwch na chyfartaleddau'r DU a Chymru. Mae band eang ffeibr llawn yn defnyddio ceblau ffeibr optig i gysylltu cartrefi a busnesau â'r cabinet ar y stryd, yn lle cysylltiadau copr. Mae cysylltiadau ffeibr optig yn darparu gwasanaeth gwell a mwy dibynadwy a all gynnig cyflymder hyd at un gigabit yr eiliad.

56 Y Swyddfa Gyfathrebu: Cysylltu'r Gwledydd 2018
57 Y Swyddfa Gyfathrebu: Creu dyfodol ffibr-llawn


**Ffigur 26: Canran y cartrefi a'r busnesau yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru nad oeddent yn bodloni gofynion y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol, yn ôl awdurdod lleol, Medi 2018**




Ffynhonnell: Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd, y Swyddfa Gyfathrebu

Nid oedd tua 26,000 o gartrefi a busnesau ledled y rhanbarth, neu 6 y cant, yn bodloni gofynion sylfaenol y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol, ym mis Medi 2018, sy'n golygu nad oeddent yn gallu manteisio ar gyflymder lawrlwytho o 10Mbit/e na chyflymder lanlwytho o 1Mbit/e. Roedd y gyfran hon uwchlaw cyfartaledd y DU (2 y cant) a Chymru (3 y cant).

**Ffigur 27: Canran y cartrefi a'r busnesau yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru a allai gael signal 4G dan do gan bob un o'r pedwar darparwr rhwydwaith, yn ôl awdurdod lleol, Medi 2018**





Ffynhonnell: Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd, y Swyddfa Gyfathrebu

Gan edrych ar wasanaethau 4G, roedd canran y cartrefi a'r busnesau yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru oedd yn cael signal dan do gan bob un o'r pedwar gweithredwr ym mis Medi 2018 yn amrywio o 48 y cant yng Ngheredigon i 74 y cant yn Abertawe. Cyfartaledd y DU oedd 77 y cant a chyfartaledd Cymru oedd 69 y cant.

O ran cwmpas daearyddol, nid oedd 16 y cant o arwynebedd Ceredigion yn cael ei wasanaethu gan unrhyw weithredwr, sy'n fwy nag mewn unrhyw awdurdod lleol arall yn y rhanbarth. Fodd bynnag, yn Abertawe, 1 y cant o'r ardal ddaearyddol oedd heb wasanaeth.

**Ffigur 28: Canran y cartrefi a'r busnesau yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru oedd yn cael signal galwadau llais dan do gan bob un o'r pedwar darparwr rhwydwaith, yn ôl awdurdod lleol, Medi 2018**





Ffynhonnell: Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd, y Swyddfa Gyfathrebu

Ar gyfer gwasanaethau galwadau ffôn yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru, roedd canran y cartrefi a'r busnesau a oedd yn cael signal dan do gan bob un o'r pedwar gweithredwr ym mis Medi 2018 yn amrywio o 69 y cant yng Ngheredigion i 94 y cant yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Yn hanner yr awdurdodau lleol yn y rhanbarth (Sir Benfro, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot), canran ardal ddaearyddol Canolbarth a De-orllewin Cymru nad oedd yn cael ei wasanaethu gan unrhyw weithredwr oedd 1 y cant neu'n is, er mai 9 y cant oedd y ganran yng Ngheredigion.

## Tai


**Ffigur 29: Amcangyfrifon o'r stoc anheddau yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru dros amser (pob deiliadaeth)**




Ffynhonnell: Amcangyfrifon Stoc Annedd, Llywodraeth Cymru

Mae cyfanswm yr anheddau[58] yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru yn parhau i gynyddu'n raddol ac amcangyfrifir bod 426,000 o anheddau ar 31 Mawrth 2017. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 6 y cant dros y 10 mlynedd diwethaf. Abertawe oedd yr awdurdod lleol â'r nifer fwyaf o anheddau (111,300), a Cheredigion oedd â'r nifer leiaf (35,300). Roedd 14 y cant o'r holl anheddau ledled y rhanbarth yn cael eu rhentu'n breifat ac roedd 70 y cant yn eiddo i berchen-feddianwyr, sy'n cyfateb i ostyngiad o 1 pwynt canran o gymharu â 5 mlynedd ynghynt.


**Ffigur 30: Nifer y fflatiau a'r cartrefi newydd a gwblhawyd yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru dros amser**




Ffynhonnell: Casgliad data: adeiladu tai newydd, Llywodraeth Cymru

[58] StatsWales: Amcangyfrifon o'r stoc anheddau yn ôl awdurdod lleol a deiliadaeth

**Ffigur 31: Nifer yr anheddau newydd a gwblhawyd yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru dros amser, yn ôl deiliadaeth**




Ffynhonnell: Casglu data: adeiladu tai newydd, Llywodraeth Cymru[59]

Cwblhawyd 1,599 o anheddau newydd[60] ledled Canolbarth a De-orllewin Cymru dros y cyfnod 2017 i 2018. Mae'r ffigur hwn 33 y cant yn llai na 10 mlynedd ynghynt a 42 y cant yn llai nag 20 mlynedd ynghynt. Yn Sir Gaerfyrddin y cwblhawyd y nifer fwyaf o anheddau newydd dros y cyfnod 2017 i 2018 (sef 529, neu 33 y cant) ac yng Nghastell-nedd Port Talbot y cwblhawyd y nifer leiaf o anheddau (sef 115, neu 7 y cant).

Dengys data o Fynegai Prisiau Tai'r DU[61, 62], yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru ym mis Medi 2018, fod prisiau tai cyfartalog yn amrywio o £118,400 yng Nghastell-nedd Port Talbot i £191,100 ym Mhowys. Rhwng mis Medi 2008 a mis Medi 2018, Powys hefyd oedd yr awdurdod lleol a welodd y cynnydd mwyaf mewn prisiau tai, a gododd £25,500 (neu 15.4 y cant) tra mai Sir Benfro a gofnododd y cynnydd lleiaf, sef £400 (neu 0.2 y cant). Hwn hefyd oedd y cynnydd lleiaf mewn prisiau tai cyfartalog a gofnodwyd mewn unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru.


[59] Daw'r ffigurau a ddarparwyd gan awdurdodau lleol a'r Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai o gofnodion a gedwir at ddibenion rheoli adeiladu. Weithiau, mae'n anodd i swyddogion rheoli adeiladu nodi a yw annedd yn cael ei hadeiladu ar gyfer Landlord Cymdeithasol Cofrestredig neu ddatblygwr preifat, a all arwain at dangyfrif nifer y tai newydd sy'n cael eu hadeiladu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a gorgyfrif nifer y tai ar gyfer y sector preifat.

[60] StatsCymru: Anheddau newydd a gwblhawyd yn ôl ardal, y math o amnedd a nifer yr ystafelloedd gwely

[61] Cofrestrfa Tir EM: Mynegai Prisiau Tai'r DU (Saesneg yn unig)

[62] Roedd y data yn gywir adeg cyhoeddi Mynegai Prisiau Tai'r DU ym mis Rhagfyr 2018. Mae Mynegai Prisiau Tai'r DU yn fynegai wedi'i addasu yn ôl y cymysgedd, sy'n golygu ei fod wedi'i bwysoli er mwyn adlewyrchu'r cymysgedd gwirioneddol o eiddo a werthwyd yn y flwyddyn flaenorol. Cyhoeddir Mynegai Prisiau Tai'r DU bob mis. Mae'r holl ffigurau ym Mynegai Prisiau Tai'r DU yn agored i'w diwygio am hyd at 12 mis.

**Figure 32: Cyfartaledd amcangyfrifon blynyddol o'r angen am dai ychwanegol (Canolbarth a De-orllewin Cymru)**




Ffynhonnell: Amcangyfrifon o’r angen am dai ar lefel cenedlaethol a rhanbarthol (ar sail data 2018)

Dengys amcangyfrifon o'r angen am dai[63], ar gyfer y pum mlynedd gyntaf (2018/19-2022/23), fod angen rhwng 1,600 a 2,500 o unedau tai ychwanegol yn flynyddol yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru (gydag amcangyfrif canolog o 2,000). Yn ystod y trydydd cyfnod (2028/29-2032/33), mae’r amcangyfrif canolog yn syrthio i 1,000 ac o ganol yr 2030au i’w diwedd (2033/34-2037/38) yr amcangyfrif canolog yw llai na 400 o unedau tai ychwanegol. Mae hyn yn adlewyrchu arafu yn yr amcanestyniadau twf aelwydydd o amcanestyniadau seiliedig ar ffigurau 2014.

Noder y bydd amcangyfrifon o'r angen am dai yn ôl deiliadaeth (tai'r farchnad a thai fforddiadwy) ar lefel ranbarthol yn cael eu cyhoeddi'n fuan ar ein gwefan[64].

Dengys amcanestyniadau aelwydydd seiliedig ar 2014[65], erbyn 2028, y gallai fod tua 144,000 o aelwydydd un person yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru, sef cynnydd o 10 y cant o gymharu â'r lefel ragamcanol ar gyfer 2018. Erbyn 2039, y nifer ragamcanol yw tua 154,000, y byddai bron i draean ohonynt (32 y cant) yn Abertawe.

[63] Llywodraeth Cymru: Angen a'r galw am dai (sail-2018)
[64] Llywodraeth Cymru: Angen a'r galw am dai
[65] StatsCymru: Amcanestyniadau aelwydydd ar gyfer awdurdod lleol, math o aelwyd a blwyddyn


Mae maint cyfartalog rhagamcanol aelwyd erbyn 2028, yn amrywio o 2.11 ym Mhowys i 2.23 yng Nghastell-nedd Port Talbot. Dylid nodi bod y data hyn yn amcanestyniadau sy'n seiliedig ar dueddiadau yn y gorffennol ac ni ddylid eu defnyddio fel rhagolygon.

Amcangyfrifodd yr awdurdodau lleol[66] fod 68 o bobl yn cysgu ar y stryd ledled Canolbarth a De-orllewin Cymru yn y pythefnos rhwng 16 a 29 Hydref 2017. Mae hyn yn gynnydd o ddwy ran o dair (27 o bobl) o gymharu â'r ymarfer a gynhaliwyd ym mis Hydref 2016, er ei bod yn bosibl bod sawl ffactor wedi dylanwadu ar y cynnydd, gan gynnwys gwell systemau ar gyfer nodi pobl sy'n cysgu ar y stryd mewn rhai awdurdodau lleol. Roedd mwy nag un o bob tri unigolyn (38 y cant) a oedd yn cysgu ar y stryd ledled y rhanbarth wedi'u lleoli yn Abertawe, er mai yng Nghastell-nedd Port Talbot y gwelwyd y cynnydd mwyaf (9 unigolyn) o gymharu â'r ymarfer a gynhaliwyd ym mis Hydref 2016.

66 StatsCymru: Pobl sy'n Cysgu ar y Stryd yn ôl ardal awdurdod lleol

## Diwylliant a Threftadaeth

### Ffigur 32: Safleoedd Treftadaeth y Byd ac Adeiladau Rhestredig yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru




Ffynhonnell: Cadw

Cafodd Canolbarth a De-orllewin Cymru 39 miliwn o Ymweliadau Dydd gan Dwristiaid[67] yn 2017, a arweinodd at gyfanswm gwariant o £1.3 biliwn. Roedd ymweliadau dydd gan dwristiaid yn y rhanbarth yn fwyaf tebygol o fod â threfi bach, pentrefi neu gefn gwlad, yn fwy nag yn rhanbarthau eraill Cymru.

Dengys Arolwg Deiliadaeth Llety Twristiaeth Cymru[68], mai Canolbarth a De-orllewin Cymru oedd â'r gyfradd isaf ar gyfer defnydd ystafelloedd mewn gwestai[69] o blith rhanbarthau Cymru yn 2017.

Wrth ystyried nifer yr ymweliadau at atyniadau twristiaeth yng Nghymru[70] yn 2017, roedd 2 o'r 10 atyniad mwyaf poblogaidd â thâl mynediad yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru, sef: Parc Dŵr a Chanolfan Hamdden LC a Folly Farm. Y rhain oedd y ddau atyniad mwyaf poblogaidd yn y wlad hefyd. Dros yr un cyfnod, roedd 2 o'r 10 atyniad mwyaf poblogaidd sydd am ddim yng Nghymru yn 2017 yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru, sef: Parc Gwledig Pen-bre ac Eglwys Gadeiriol Tyddewi.

67 Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain Fawr (2017)
68 Llywodraeth Cymru: Arolygon deiliadaeth llety twristiaeth Cymru (2017)
69 Y gyfradd defnydd ystafelloedd yw nifer yr ystafelloedd gwely a ddefnyddir dros gyfnod penodol fel cyfran o gyfanswm yr ystafelloedd gwely sydd ar gael.
70 Llywodraeth Cymru: Ymweliadau ag atyniadau twristiaeth

## Gwybodaeth allweddol am ansawdd

### Perthnasedd

Mae'r cyhoeddiad hwn yn gompendiwm o ystadegau allweddol ar naw pwnc gwahanol. Felly, mae'n dwyn ynghyd ddata sydd eisoes wedi'u cyhoeddi ar wahanol lefelau daearyddol (e.e. Cymru, lefel awdurdod lleol). Lle y bo'n bosibl ac yn briodol, darparwyd data ar lefel ranbarthol er mwyn rhoi rhagor o gyd-destun ynglŷn â gwahaniaethau rhanbarthol a allai fodoli yng Nghymru. Ceir rhagor o wybodaeth am ffynonellau data penodol yn y datganiadau unigol, y cyfeirir atynt yn y troednodiadau.

Lluniwyd y cyhoeddiad hwn i ddechrau er mwyn helpu timau polisi cymorth o fewn Llywodraeth Cymru i baratoi a drafftio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol[71]. Fodd bynnag, rhagwelwn y bydd cyhoeddiad hwn, oherwydd ei gwmpas, yn ddefnyddiol i eraill. Rhagwelir y caiff y cyhoeddiad hwn ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus eraill â diddordeb rhanbarthol a'r cyhoedd, er mwyn (i) cael trosolwg o'r data a gesglir ar gyfer Cymru a'i hawdurdodau lleol a'i rhanbarthau ar bob un o'r pynciau a (ii) deall gwahaniaethau a allai fodoli rhwng rhanbarthau Cymru. Gall defnyddwyr â diddordeb arbennig mewn un neu fwy o'r pynciau yn yr adroddiad hwn weld amrywiaeth ehangach o ystadegau a data ar StatsCymru[72].

### Cywirdeb

Daw'r ystadegau a geir yn y datganiad hwn o ffynonellau ystadegau swyddogol, er nad ydynt i gyd wedi cael eu dosbarthu'n Ystadegau Cenedlaethol. Ceir rhagor o wybodaeth am ystadegau swyddogol ac Ystadegau Gwladol ar wefan Awdurdod Ystadegau'r DU[73]. Ceir gwybodaeth am ansawdd pob un o'r ffynonellau data a ddefnyddiwyd yn y datganiadau unigol, y cyfeirir atynt yn y troednodiadau, neu yn yr adroddiadau ansawdd sy'n ategu'r datganiadau hyn.

Oherwydd y nifer fawr o ffynonellau sydd wedi'u cynnwys yn y cyhoeddiad hwn a'r amser a gymerwyd i'w lunio, mae data mwy diweddar wedi'u cyhoeddi ar gyfer rhai ffynonellau. Y data hyn oedd y diweddaraf ar gael ar 11/01/2019, er bod diwygiadau wedi'u gwneud i ffynonellau data, fel yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a pherfformiad twristiaeth Cymru. Mae datganiadau mis Ionawr i fis Mehefin 2018 wedi'u hystyried. Mae data cyfredol ar gael drwy ddilyn y dolenni i ffynonellau sydd wedi'u cynnwys yn y troednodiadau.

Ni fwriadwn ddiweddaru'r adroddiad hwn yn rheolaidd. Fodd bynnag, yn y dyfodol, bydd data ar gael ar StatsCymru ac mewn dangosfyrddau, a chânt eu diweddaru wrth i ddata newydd gael eu cyhoeddi, gan sicrhau bod defnyddwyr bob amser yn cael y data diweddaraf.

71 Llywodraeth Cymru: Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru
72 Gwefan StatsCymru
73 Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig: mathau o ystadegau swyddogol (Saesneg yn unig)

### Amseroldeb a phrydlondeb

Lluniwyd y cyhoeddiad hwn i gyd-fynd â'r broses o ddrafftio a chyhoeddi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Oherwydd y nifer fawr o ffynonellau sydd wedi'u cynnwys yn y cyhoeddiad hwn a'r amser a gymerwyd i'w lunio, mae data mwy diweddar wedi'u cyhoeddi ar gyfer rhai ffynonellau. Y data hyn oedd y diweddaraf ar gael ar 11/01/2019.

### Hygyrchedd ac eglurder

Gall defnyddwyr weld yr holl ddata a geir yn y datganiad hwn drwy ddilyn y dolenni a nodir yn y troednodiadau. Mae'r mwyafrif o'r data sy'n sail i'r adroddiad hwn, gan gynnwys dadansoddiadau llawer mwy manwl, ar gael ar StatsCymru a thrwy wasanaethau data agored StatsCymru. Mae gwybodaeth am ansawdd a metadata ar gyfer pob un o'r ffynonellau hyn hefyd ar gael drwy ddilyn y dolenni hyn.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar hyn o bryd mewn fformat PDF y gellir ei argraffu, ond yn y dyfodol, cyhoeddir data fel adroddiadau ar-lein rhyngweithiol er mwyn sicrhau'r lefel uchaf posibl o effaith ac effeithlonrwydd gan ddefnyddio gwasanaethau data agored Llywodraeth Cymru.

### Cymaroldeb a chydlyniaeth

Lle mae setiau data gwahanol wedi'u defnyddio i drafod yr un pwnc (er enghraifft yn yr adran ar ystadegau sy'n ymwneud â'r Gymraeg), rhoddir esboniad o gryfderau a chyfyngiadau pob un o'r ffynonellau hyn, a'r gydlyniaeth rhyngddynt, gyda rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu yn y ffynonellau a'r dolenni.

Lle y bo'n bosibl, mae Ystadegau Gwladol wedi'u defnyddio er mwyn sicrhau bod y data o ansawdd uchel a'u bod yn gyson ag ystadegau ar y pynciau a allai gael eu defnyddio at ddibenion eraill. Ceir rhagor o wybodaeth am gymharedd a chydlyniaeth pob un o'r ffynonellau yn y ffynonellau y mae dolenni iddynt wedi'u nodi yn y troednodiadau.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LlCD)

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae’r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o’r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion (“dangosyddion cenedlaethol” sy’n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni’r nodau llesiant, a (b) gosod copi o’r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn adroddiad Llesiant Cymru.

Gwybodaeth bellach am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gallai’r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu’r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau lleol mewn perthynas â’u hasesiadau llesiant a’u cynlluniau llesiant lleol.

## Mae rhagor o fanylion

Mae'r ddogfen ar gael yn: https://llyw.cymru/ystadegau-cryno-ar-gyfer-rhanbarthau-economegol-2019

## Dolenni cysylltiedig eraill

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

## Diweddariad nesaf

Mae'r cyhoeddiad hwn yn ddatganiad untro ac ni chaiff ei ddiweddaru. Fodd bynnag, darperir data yn y dyfodol mewn fformat dangosfwrdd a chânt eu diweddaru wrth i ddata newydd ddod ar gael.

## Hoffem gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Anfonwch e-bost at desg.ystadegau@llyw.cymru.

## Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir fel arall.